# ADFER NATUR: SYNIADAU AR GYFER GWEITHREDU




## CYMUNEDAU

**Gall mannau gwyrdd o ansawdd da effeithio ar y modd y mae pobl yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn – gallant gynyddu hamddena corfforol a galluogi pobl i ryngweithio â natur ar garreg eu drws. Gall gweithredu cymunedol er budd bywyd gwyllt helpu rhywogaethau a chynefinoedd, ond hefyd y bobl sy'n defnyddio'r mannau hynny.**

Gall grwpiau cymunedol helpu i gynnal a gwella ardaloedd ar gyfer natur: cael gwared ar sbwriel, cofnodi bywyd gwyllt a helpu gyda rheolaeth. Ar raddfa fwy, gellir creu grwpiau i ymgymryd â phrosiectau a ariennir gan grantiau i reoli ardaloedd mwy o dir mewn cymuned, megis parciau, caeau chwarae neu hyd yn oed rhandiroedd a pherllannau.

Mae gweithredu cadarnhaol gan bawb a chydweithio rhwng sefydliadau ac unigolion yn hanfodol er mwyn adfer natur mewn modd llwyddiannus. Gall pawb wneud gwahaniaeth, meithrin ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sydd o fudd i fioamrywiaeth a phobl.






Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Partneriaeth Natur Sir Gâr • Carmarthenshire Nature Partnership

# DARGANFOD

Os ydych am ddarganfod pa fywyd gwyllt sy'n byw yn eich ardal chi, bydd gwefan Aderyn yn eich helpu. Gallwch fewnbynnu eich cod post a bydd yn dweud wrthych beth sydd wedi'i gofnodi yn eich ardal, neu gallwch chwilio am rywogaethau penodol i weld pa mor brin neu gyffredin yw rhywbeth yng Nghymru. https://aderyn.lercwales.org.uk

Dewch i adnabod eich ardal leol i weld pa gyfleoedd sydd gennych i gyfoethogi'r bywyd gwyllt yno. Pa ddarn o laswelltir y gellid gadael iddo dyfu, ble y gallech blannu ychydig o goed, ble y gallech greu pwll dŵr neu bentwr coed?





# RHEOLI

Defnyddiwch arbenigedd y Partneriaethau Natur Lleol a'r sefydliadau sy'n rhan ohonynt: gallant helpu i roi cyngor ar ba gamau y gallech eu cymryd ar eich safle.
Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

# CREU

Ceisiwch greu mosäig neu glytwaith o gynefinoedd cysylltiedig. Gallwch gweithio gyda nodweddion naturiol eich tir a chynorthwyo'r hyn sydd yno neu creuwch ardd bywyd gwyllt gyda planhigion peillwyr cyfeillgar..





# DIOGELU

Ceisiwch osgoi defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr a pheidiwch â defnyddio mawn – defnyddiwch ddewisiadau mawn eraill a helpwch i achub ein mawnogydd gwerthfawr. Cymerwch ran mewn prosiect bywyd gwyllt lleol a gwarchodwch eich safleoedd bywyd gwyllt lleol.

**I gael rhagor o fanylion edrychwch ar:**

- Darganfyddwch fwy am natur yn Sir Gaerfyrddin yn Bioamrywiaeth
- Cysylltwch â Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk am ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer e-byst Newyddion Natur.
- Adnoddau ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

